Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanilar
**Ysgol Gynradd Llanilar**
**Llanilar**
**Aberystwyth**
**SY23 4PA**

**Dyddiad yr arolygiad: 18 Medi, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/10/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llanilar mewn adeilad a adeiladwyd i bwrpas ar safle'r ysgol gynradd leol. Sefydlwyd y Cylch bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae'r plant sy'n mynychu yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed. Mae ar agor pum bore'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol ar gyfer plant tair oed, ac am dri phrynhawn yr wythnos ar gyfer plant rhwng dwy a thair oed. Ar adeg yr arolygiad, yr oedd 12 plentyn tair oed yn y grŵp yn cael eu hariannu. Daw'r mwyafrif o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinydd a dwy ymarferwraig amser llawn yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Mae dwy ohonynt yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r drydedd yn fyfyrwraig o dan hyfforddiant. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd yn Ionawr 2007.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- mae gan y plant agweddau da at ddysgu ac maent yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- cynigir ystod o weithgareddau diddorol;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan;
- caiff yr holl blant eu cefnogi'n effeithiol; ac
- mae perthynas gadarnhaol iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

**Rhagolygon gwella**

| Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:<br><br>• arweinyddiaeth gydwybodol y prif ymarferydd;<br>• gwaith tîm da;<br>• ymarferwyr sydd yn agored i syniadau newydd;<br>• cynllun gwella manwl sydd yn cael ei weithredu; a<br>• defnydd adeiladol o ystod o bartneriaethau sydd yn cefnogi'r dysgu. |
|---|

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 ymestyn medrau'r plant ymhellach yn arbennig eu medrau llythrennedd Cymraeg a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A2 datblygu'r cynllunio er mwyn sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu hyrwyddo'n gyson ar draws y meysydd dysgu;

A3 datblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau arfarnu'r ddarpariaeth a gweithredu gwelliannau; a

A4 datblygu rôl y pwyllgor rheoli ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae eu medrau gwrando yn datblygu'n dda. Mae tua hanner y plant yn dangos gafael sicr ar ystod o eirfa ac maent yn hyderus i gynnal sgwrs syml. Mae'r gweddill yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a chyfarchion ond ymatebion byr iawn a gynigir wrth ateb cwestiynau. Mae rhan fwyaf y plant yn medru dwyn i gof hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd ac yn eu hailadrodd yn gymharol gywir. Mae mwyafrif y plant yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn deall fod lluniau a phrint yn cyfleu ystyr. Mae bron

pob un yn adnabod eu henwau ar labeli. Maent yn defnyddio ystod o ddeunyddiau ac offer marcio yn briodol ar gyfer ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar.

Gwna mwyafrif y plant ddefnydd cyson o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae bron pob un yn cyfrif yn gywir i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol, megis mawr a bach, llawn a gwag, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gallant greu a dilyn patrwm yn gywir. Mae y rhan fwyaf yn adnabod siapiau sylfaenol ac yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Maent yn defnyddio eu medrau technoleg a gwybodaeth yn briodol. Defnyddiant y llygoden i symud gwrthrychau ar y sgrin, y camera digidol i dynnu lluniau a, gyda chymorth, medrant roi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.

Gwna rhan fwyaf y plant ddefnydd priodol o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau mathemategol, corfforol a chreadigol. Dangosant fedrau llawdriniol da wrth ddefnyddio offer torri, peintio a gludo.

**Lles: Da**

Mae gan y plant ymagweddau da tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n ddiwyd ar dasg gan fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae pob un ohonynt wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

Mae gan lawer o'r plant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Deallant bwysigrwydd golchi dwylo cyn bwyta byr brydau. Maent i gyd yn cyd-chwarae'n hwylus ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus.

Mae medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol a thrwy'r ystod o brofiadau sydd yn deillio o'r bartneriaeth agos gyda'r ysgol a'r gymuned.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynllunio gweithgareddau perthnasol ar draws y meysydd dysgu. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sydd yn addas i ystod oed y plant. Gwneir defnydd priodol o fframweithiau cwricwlaidd ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth gyffredinol ac o fframwaith newydd yr awdurdod addysg ar gyfer cynllunio tasgau penodol. Nid yw'r drefn gynllunio newydd wedi'i sefydlu'n ddigonol i sicrhau bod medrau dysgu'r plant yn datblygu'n gyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant wedi'i hymgorffori'n briodol yn y profiadau a ddarperir. Er hyn, nid yw'r tasgau

bob amser yn ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, mae ymarferwyr yn annog plant i wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Gwneir defnydd effeithiol o syniadau'r plant ac o'u lluniau i greu llyfrau darllen personol o ansawdd da ar eu cyfer. Rhoddir sylw da i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, gan gynnwys pobl a diwylliannau eraill, yn llai cyson.

Gwneir defnydd addas o ymweliadau, ymwelwyr a gweithgareddau yn y gymuned i gefnogi dysgu'r plant. Mae'r ymweliadau â siop y pentref, swyddfa bost a'r feddygfa, a'r ymwneud mewn gweithgareddau, megis y carnifal a'r noson 'cawl a chân', yn datblygu gwybodaeth y plant o'u cymuned.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn effeithiol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae profiadau, megis tyfu a gofalu am blanhigion, ymweld â fferm a gweithdrefnau ailgylchu, yn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Defnyddiant ystod briodol o ddulliau addysgu ac adnoddau addas i gynorthwyo'r dysgu. Mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau dan arweiniad ymarferwyr a rhai y mae'r plant yn eu dewis eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn ystod sesiynau stori a sesiynau grwpiau bach ac maent yn defnyddio cwestiynu yn bwrpasol i annog y plant i gyfrannu. Defnyddiant eu harbenigedd neu ddiddordebau personol yn effeithiol wrth gynllunio a chynnal gweithgareddau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth eglur o'u cynnydd a'u datblygiad cyffredinol. Maent yn arsylwi arnynt wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Cesglir a chofnodir sylwadau addas ar draws y chwe maes dysgu. Mae'r defnydd o'r wybodaeth ar gyfer cynllunio pellach yn datblygu. Cwblheir ffurflen drosglwyddo gwybodaeth briodol i'r ysgol gynradd. Caiff rhieni eu hysbysu'n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant drwy drafodaeth anffurfiol, adroddiadau a nosweithiau rhieni a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r gweithdrefnau sefydlu yn sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn briodol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd megis tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr sydd yn meddu ar brofiad perthnasol. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cynnig cyfleusterau addas. Mae adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Er hyn, mae'r cyflenwad o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fwy cyfyng. Caiff yr adnoddau yn yr ardaloedd y tu allan eu defnyddio'n effeithiol i gynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol a'u medrau arsylwi ac ymchwilio. Gwneir defnydd cynyddol o'r gymuned fel adnodd i gefnogi'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn gydwybodol gan arweinydd profiadol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a datblygiad plant. Mae eu perthynas gyda'r plant a'r rhieni yn gadarnhaol iawn. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli yn datblygu ei ddealltwriaeth o'i gyfrifoldebau. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae rôl y pwyllgor o ran arfarnu'r ddarpariaeth gyffredinol ac o flaengynllunio yn parhau i ddatblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae’r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a datblygu cysylltiadau effeithiol gyda’r ysgol gynradd leol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau’r lleoliad ac o rai meysydd i’w gwella. Maent yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn datblygu eu gwybodaeth am ddulliau arfarnu a gweithredu gwelliannau.

Gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg, mae’r arweinydd wedi cwblhau arfarniad cytbwys o’r ddarpariaeth. Mae’r cynllun gwella a gynhyrchwyd yn sgil hyn yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwelliant, ynghyd ag amserlen a chyfrifoldebau penodol er mwyn cyflawni’r targedau a osodir. Mae’r ymarferwyr wedi cychwyn ar y gwaith o weithredu’r cynllun a nodir sylwadau addas ar y cynnydd a wneir.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro’n rheolaidd gan yr athrawes ymgynghorol a chytunir ar feysydd addas i gael sylw. Rhoddir strategaethau priodol ar waith sydd yn gwella’r ddarpariaeth. Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu trafod ymhellach gyda swyddog Mudiad Meithrin. Ceisir barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron.

Mae’r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar ddatblygiad a gofal plant ac yn caffael gwybodaeth a sgiliau newydd. Gwnânt ddefnydd addas o’r hyfforddiant a geir yn arbennig o ran datblygu agweddau ar y cwricwlwm megis medrau mathemateg plant. Ceir rhai cyfleoedd i’r ymarferwyr gyd-drafod a rhannu syniadau gydag ymarferwyr eraill yn ystod dyddiau hyfforddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau strategol sydd yn cyfrannu’n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda’r partneriaid.

Mae perthynas dda gyda’r rhieni a darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy’r hysbysfwrdd, cyfarfodydd a chylchlythyron. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a’r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â’r ymarferwyr.

Mae cydweithrediad agos gyda’r pwyllgor rheoli, athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin. Sefydlwyd cysylltiadau adeiladol gyda’r ysgol gynradd sydd yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i’r plant i gam nesaf eu haddysg. Mae’r cysylltiadau gyda’r gymuned leol yn dylanwadu’n effeithiol ar brofiadau dysgu’r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant perthnasol i'r ymarferwyr. Gan eithrio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae adnoddau dysgu digonol ar y cyfan. Caiff yr adeilad a'r ardaloedd chwarae eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth sicr o'r gyllideb ac mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchon codi arian ac o grantiau i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ymhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |